# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Paulette Smith | Adran Etholiadol: | Clydach |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd bob 3ydd dydd Sadwrn y mis yn Llyfrgell Clydach. Gweithredais fel cyfryngwr rhwng cymdogion a swyddogion ar adegau. Helpais etholwyr gyda sawl problem ynghylch tai, problemau cymdogion, yr heddlu ac unrhyw broblemau sy'n peri pryder iddynt.

Mynychais gyfarfodydd PACT hefyd.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 5 | / | 12 | 42 | % |
| Cyngor | 10 | / | 15 | 67 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 2 | / | 9 | 22 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr All | 5 | / | 10 | 50 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 4 | / | 5 | 80 | % |
| CYFFREDINOL | 30 | / | 59 | 51 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

Sylwer y derbyniais oddefeb am 6 mis yn 2013 oherwydd roedd fy merch yn ddifrifol sâl. Effeithiodd hyn ar fy ystadegau presenoldeb uchod.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Rwy'n llywodraethwr ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd ac Ysgol Iau Clydach ac Ysgol Gatholig St Joseph.

Rwy'n Gynghorydd Hyrwyddo Gofalwyr ac roeddwn yn cynrychioli Dinas a Sir Abertawe mewn cyfarfodydd yng Nghynulliad Cymru ac unrhyw gyfarfodydd grŵp ymwybyddiaeth i ofalwyr.

Rwyf hefyd ar Fwrdd Cyngor Iechyd Cymunedol Abertawe Bro Morgannwg.

**Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014**

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Cynhaliais gyfarfodydd rheolaidd gyda nifer o aelodau'r cabinet ynghylch materion ward a godwyd gan yr etholwyr.

Mynychais gyfarfodydd gyda Gweinidog Gofalwyr y Cynulliad. Es i gyfarfodydd hefyd gyda'r Bwrdd Iechyd. Rwy'n cysylltu ag Aelod Cynulliad Gŵyr ac Aelod Seneddol Gŵyr ar rai materion sy'n ymwneud â'r ward.

## Adran 5: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

27/03/2014 - Deall Materion Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
21/02/2014 - Sgiliau Gwrando'n Astud
19/02/2014 - Sgiliau Cadeirio
22/01/2014 - Rheolau Trafod
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
17/10/2013 - Deallusrwydd Emosiynol

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Mewn perthynas â'm rôl fel Llywodraethwr Ysgol, rwyf wedi cefnogi'r ddwy ysgol drwy fynd i gyngherddau ysgol, gorymdaith bonedi'r Pasg, gwasanaethau carolau etc. ac unrhyw achlysuron y mae fy angen ar eu cyfer. Gall yr holl etholwyr gysylltu â mi ar fy rhif ffôn cartref neu ar fy ffôn symudol.

Rwyf wedi trefnu i osod blodau yn y pentref gan ddefnyddio fy lwfans amgylcheddol.

Rwy'n Llywydd y Clwb Ifanc am Byth.

## Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 08.07.14 |